Emosiynol / Seicolegol

## Gweithgaredd 5: Dangosyddion cam-drin / niwed / esgeulustod

# Categori Cam-Drin: Cam-Drin Emosiynol / Seicolegol

Bygwth niwed neu esgeuluso, rheolaeth gymhellol, codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu rhywun neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cymorth (ystyr rheolaeth gymhellol yw gweithred neu batrwm o weithredoedd ymosodol, bygythiadau, sarhad, codi ofn neu unrhyw fath arall o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, gosbi neu ddychryn y dioddefwr).

### DANGOSYDDION

#### Corfforol

- hunan/anafiadau
- cwsg aflonydd
- newid o ran archwaeth bwyd, colli pwysau
- cadw draw o bawb mewn ystafell
- wedi'i wisgo'n anaddas neu'n od gan ofalwr.

#### Emosiynol

- goddefol
- wedi cynhyrfu
- dryslyd
- dirwgnach
- ofnus
- teimlo'n isel
- syniadaeth am hunanladdiad
- diymadferth
- dagreuol
- hunan-barch isel.

#### Ymddygiad

- insomnia / diffyg cwsg
- gwingo neu gilio oddi wrth gofalwr / gofalwyr
- osgoi cyswllt llygaid
- cyrcydu / crynu gan ofn
- taro pen, cnoi dwylo
- rhedeg i ffwrdd, ddim eisiau mynd adre.

#### Cymdeithasol

- distaw pan fo'r camdriniwr yn bresennol
- bod yn or-wasaidd neu'n rhy barod i blesio
- gorawyddus neu'n crefu i rywun eu hoffi
- gorbryder / straen / ofnus am berson neu fan arbennig
- gweithgareddau cymdeithasol a chyfeillgarwch wedi'u rheoli gan y camdriniwr
- cael ei rwystro rhag cysylltu â o'r un oed (e.e. ar-lein)
- amharod i dderbyn ymwelwyr i'r cartref.

### LLE ALLAI HYN DDIGWYDD?

- cartref yr unigolyn dan sylw
- cartref gofal preswyl
- cartref nyrsio
- ysbyty
- ysgol / coleg
- gofal dydd
- meithrinfa
- gwarchodwyr plant
- llety gwarchod
- cartref perthynas
- man cyhoeddus.

### PWY ALL FOD YN GYFRIFOL NEU'N ACHOSI HYN?

- gofalwr cartref
- gofalwr preswyl
- perthynas / rhiant / plentyn / gŵr neu wraig / gofalwr arall
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr proffesiynol.